CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 27.05.2010 A GYNHALIWYD YN
NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.00PM

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD

Croesawodd y Maer newydd ei sefydlu, Rob Phillips, bawb i'r Cyfarfod a diolchodd iddynt am eu cyfraniad yn ystod Seremoni Urddo'r Maer o'r 7fed o Fai 2010. Offrymwyd gweddi gan y Cyng. Chris Thomas.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Rob Phillips (Cadeirydd);
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; John Davies;
Margaret Davies-Evans; Lynda Mason-George;
Kistiah Ramaya; Chris Thomas; Selwyn Walters.
Mr Carl Stringer: Gohebydd y Wasg sy'n gweithio ar liwt ei hun;
Gohebydd y Wasg y Cambrian News;
Mr Derek Smith Is-Gadeirydd Siambr Fasnach Llambed;
Mr Norman Hill – Clwb Golff Cilgwyn;
Miss Lowri Thomas - Cyngor Sir Ceredigion;
Cynghorydd Sirol Ivor Williams.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tref. Andrew Carter, Elsie Dafis, Greg Evans, Dorothy Williams & Derek Wilson a'r Plismon Richard Marshall.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

Bu i'r Cyng. Barton a Harris ddatgan buddiant personol pan yn trafod y cais ariannol gan y Ganolfan Deuluol Llambed. Gadawsant yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed –Arddangos arwyddion: Ffafriwyd arddangos arwyddion ar byst a oedd yn bodoli'n barod.

4.2 Bydd y Maer yn siarad â'r Heddlu parthed y posibilrwydd o gyflwyno Gorchymyn Traffig ar Stryd y Farchnad.

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 29ain o Ebrill 2010

Cytunwyd bod cofnodion Ebrill yn gofnod cywir.

6. Ar ddechrau'r cyfarfod cyflwynwyd aelodau i Mr Norman Hill. Derbyniwyd fel rhodd ganddo, lyfr yn dwyn y teitl, "Peterwell-Cilgwyn 1905-2005 – y Gan Mlynedd Gyntaf mewn geiriau a lluniau" a gyhoeddwyd ym 2005 i ddathlu canmlwyddiant Clwb Golff Cilgwyn, Llangybi.

Gadawodd Mr Norman Hill y Cyfarfod.

7. Derbyniwyd cyflwyniad gan Lowri Thomas, Rheolwraig Golygfa-Stryd CSC, parthed gwelliannau y gellir eu cyflwyno ar Sgwâr Harford, Llambed ee i'r Ffynnon. Amcanbris y gost yw £12,000. Darperir £3,000 gan y Cyngor Sir a byddai'n ofynnol i'r Cyngor Tref gwrdd â £9,000 o'r gost. Derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth aelodau a oedd yn gytun y dylid gymryd camau i wella cyflwr y Sgwâr, oherwydd ei leoliad canolog o fewn y dref. Er mwyn dod i gasgliad dilys, gofynnwyd am restr o'r gwaith arfaethedig i gynnwys y costau unigol. Penderfynwyd cynnwys y mater fel eitem ar agenda cyfarfod y dyfodol y Cyngor Tref, ar ôl derbyn yr wybodaeth angenrheidiol.

Gadawodd Miss Lowri Thomas a Mr Derek Smith y Cyfarfod.

8. MATERION SY'N CODI

8.1 Cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Cyngor Sir i drafod materion o gonsyrn gan aelodau'r Cyngor Tref:

Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer Ddydd Llun, 7fed o Fehefin am 7pm, Neuadd yr Eglwys. Bu i'r Clerc grynhoi enghreifftiau a oedd yn amlygu materion o gonsyrn, y gorffennol a'r presennol y CT. Gellir eu trafod, o bosibl, yn ystod y

cyfarfod. *Bydd y Maer, mewn ymgynghoriad â'r Clerc yn llunio Agenda'r noson.*

8.2 Adborth: Cyfarfod Ymgynghorol o'r 16eg o Dachwedd 2009 rhwng y Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a'r Cyngor Tref (CT)

Derbyniwyd ymateb ysgrifenedig gan y Brifweithredwraig CSC ar y 4ydd o Fai 2010 parthed yr ymholiadau a godwyd yn ystod y Cyfarfod Ymgynghorol o'r 16.11.2009. Hefyd ar y 4.05.2010, derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig o'r sgwrs ffôn o'r prynhawn hwyr o'r 29ain Ebrill rhwng y Clerc a'r Brifwithredwraig pan na fu'n bosibl i'r Brifweithredwraig i gyflwyno'r adroddiad yn ymwneud â'r Cyfarfod Ymgynghorol cyn cyfarfod y Cyngor Tref o'r un dyddiad am 7o'r gloch yr hwyr. Ni bu'n bosibl, hefyd, i'r Brifweithredwraig i gysylltu â'r Cadeirydd Selwyn Walters drwy gyfrwng ebost. Achos yr oedi oedd gosod system ffôn newydd mewn lle, yn swyddfeydd y Cyngor Sir, ac fel canlyniad nid oedd modd i gyfathrebu'n electronig.

Dosbarthwyd yr adroddiad yn ymwneud â'r Cyfarfod Ymgynghorol y Cyngor Sir i aelodau'r Cyngor Tref gan y Clerc, cyn y cyfarfod y CT o'r 27.05.2010, ac yn ychwanegol, i rai hynny a oedd yn meddu ar gyfleusterau ebost, ar y 4.05.2010, y llythyr yn amlinellu cynnwys y sgwrs ffôn o'r 29.04.2010. Roedd diweddariad materion traffig, a gyfeiriwyd atynt yn sgîl y drafodaeth ffôn o'r 29.04.2010 wedi eu hadrodd at sylw aelodau gan y Clerc yn ystod y cyfarfod o'r 29.04.2010 y Cyngor Tref.

Caiff materion heb eu datrys, yn deillio o'r Cyfarfod Ymgynghorol o'r 16.11.2009, eu trafod yn ystod y cyfarfod o'r 7fed o Fehefin.

8.3 Materion Traffig

Derbyniwyd ateb gan Mr Tom Delph-Janiurek, Adran Draffig, CSC ar y 6.05.2010 ynglŷn â

8.3.1 Diogelwch ar gyfer cerddwyr Heol y Gogledd; Cyfyngiad Parcio ar Rhes Harford a Chyfyngiad Parcio ar gyffordd Heol y Bryn/ Heol Cambrian: y mae'r 3 mater ar restr i'w hystyried ar gyfer gweithredu'n ystod y flwyddyn ariannol hon. Y mae peth oedi wedi bod cyn dod i benderfyniad ar ba brosiectau caiff eu hariannu eleni gan na chadarnhawyd lefel y cyllid adrannol, tan yn ddiweddar.

8.3.2 Arolwg Llawn o'r dref: "Ynglŷn â'r cais am arolwg draffig llawn o'r dref, y mae'r cais wedi ei gyflwyno droeon bellach. Gwerthfawrogwn bod gan aelodau'r CT gonsyrn yn ymwneud â materion traffig yn Llambed, ond nid oes gennym ar hyn o bryd, y cyllid aruthrol i wireddu'r cynllun. Rydym yn casglu gwybodaeth, yn gyson, yn ymwneud â thrafnidiaeth, dosbarthiadau a chyflymder oddi wrth 2 safle cyfrif parhaol yn Llambed ar yr A482(gogledd) a'r A475. Mae'n fwriad gennym yn ystod y dyfodol i ychwanegu cownter(ar yr A482 de) i atgyfnerthu'r trefniant hwn. Beth bynnag, byddai arolwg manwl llawn o'r dref yn golygu miloedd luosog o bunnoedd ac yn dibynnu ar gwmpas a gorchwyl.

Yr unig beth y gallwn argymmell ar hyn o bryd, os oes materion penodol sy'n achosi consyrn, a fedrant gael eu hadrodd yn unigol i'n sylw. Ceisiwn bod mor gynorthwyol â phosibl gyda'r ceisiadau llai, mewn lleoliadau penodedig, yn hytrach na gwrthod cais eang a chyffredinol."

8.4 Adborth: y cyfarfod parthed arwyddion sy'n cael eu harddangos yn y dref: Mr Lyndon Griffiths CSC: Cyng. D.Williams; Cllr C Thomas &

D.Wilson; 17.05.2010. Adroddodd y Cyng. Thomas fod cyfarfod buddiol wedi cymryd lle ar y 17.05.2010. Caiff rai arwyddion eu cyfnewid am rai newydd ac eraill eu trwsio.

8.5 Arwydd Clos Glyndŵr: y mae 3/5 o'r deiliaid wedi caniatau yr arwydd ar ei stryd. Hysbyswyd y Cyngor Sir. *Disgwylir ateb ganddynt.*

8.6 Llyfryn a ddosbarthwyd rhwng aelodau Ombwdsman**;** Cod Ymddygiad **–** Canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y mae'r Gyng Mason-George wedi trosglwyddo'r ddogfen at sylw'r Gyng. D.Williams.

8.7 Mudiad Masnach Deg Llambed: dim datblygiadau

8.8 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref: gohiriwyd y drafodaeth oherwydd absenoldeb y Cyng D.Wilson (a hefyd y sefyllfa parthed trwsio'r fainc yng nghyffiniau Bryn- yr-Eglwys)

9. GOHEBIAETH

9.1 Ombwdsmon: Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau lleol yng Nghymru: Canllawiau gan Ombwdsmaon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: nodwyd er gwybodaeth.

9.2 Cymuned ar y Cyd- canllawiau ar feithrin perthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref: Llywodraeth Cynulliad Cymru: nodwyd er gwyboadaeth.

9.3 Papur Sain Ceredigion; Diwrnod Agored: 29.05.2010 @1.30pm, Canolfan Fethodistaidd San Paul, Aberystwyth i ddathlu 40 mlynedd o wasanaeth gwirfoddol y Papur Sain. Er gwybodaeth

9.4 Hysbysiad am Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 2010 ar Ddydd Sadwrn 9fed Hydref 2010 ym Mhafiliwn y Bont, Pontrhydfendigiad (£65 yr un os archebir cyn 30.07.2010). Enwebwyd y Maer a'r Gyng. D.Williams i fynychu'r digwyddiad. Bydd y gynhadledd yn rhoi'r cyfle i asesu cyfeiriad Cynghorau Cymuned a Thref Cymru yn y dyfodol, gyda ffocws penodol ar weithredu Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Llywodraeth Leol a gymeradwywyd yn ddiweddar. Gwahoddir Aelod Gynghorau i gyflwyno hyd at uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol a rhaid iddynt gyrraedd y swyddfa erbyn 2.07.2010 man pellaf i'w hystyried gan y Pwyllgor Cynigion.

Penderfyniad: i ystyried cynnig ar gyfer trafodaeth yn ystod y cyfarfod nesaf y CT.

9.5 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2011-12: ymgynghoriad wedi cychwyn ar yr 11eg o Fai ac i orffen ar y 3.08.2010. *I gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.*

9.6 Dathlu llwyddiant y prosiect "Gwerth Gwybodaeth i Gymunedau Gwledig" mewn digwyddiad am ddim ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr PS ar y 25ain o Fehefin 2010 o 10.30am tan 1.00pm, gyda chinio am ddim i gloi.

Y Cyng. Harris i fynychu'r digwyddiad, o bosibl.

9.7 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

10. MATERION CYNLLUNIO

10.1 Caniatâd Cynllunio gan GSC i adeiladu estyniad â ffrâm o ddur i adeilad presennol diwydiannol i'w ddefnyddio fel adnodd ailgylchu deunyddiau. Ymgeisydd: Mr M Saunders. Lleoliad: LAS Heol Tregaron. Rhif y Cais: A090831. Dyddiad: 24.05.2010.

10.2 Cais Cynllunio: Amrywio amod A070834 i ymestyn yr amser i gyflwyno materion wrth gefn. Lleoliad: Plot ger Pennat, Lôn Glynhebog, Llambed.

Ymgeisydd: Mr P Evans. Dyfarniad y Cyngor Tref: **Dim gwrthwynebiad.** Dyddiad ar y llythyr 12.05.2010, derbyniwyd diwrniod ar ôl hyn gan y CT- 14 diwrnod i gyflwyno ateb. (Pan fydd ceisiadau cynllunio'n syrthio rhwng cyfarfodydd ac er mwyn cyflwyno ymateb o fewn y terfynau 14 diwrnod, penderfynwyd yn ystod y gorffennol i ddirprwyo swyddogaethau i unrhyw 2 allan o 3 o'r Maer/Dirprwy-Faer/ Maer y Flwyddyn Flaenorol i gyflwyno ymateb ar ran y Cyngor Tref. Os byddai'r CT o'r farn bod angen trafodaeth lawn, caiff cyfarfod lawn ei drefnu neu cais ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn gofyn am estyniad i'r 14 diwrnod).

10.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 14.04.2010 ac Agenda y cyfarfod 12.05.2010: er gwybodaeth.

10.4 Cyfarfod Dyraniadau Aneddiadau'r Cynllun Datblygu Lleol: Ymgynghoriad byr anffurfiol ar gyfer Aelodau'r Cyngor a'r Cynghorau Cymuned/Tref ynghylch Dyraniadau'r Aneddiadau (mapiau a niferoedd tai). Dydd Mawrth 11 Mai 2010 – 7pm Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron: Adroddodd y Cyng. Harris fod y cyfarfod wedi bod o fudd a bu iddo annog chynrychiolaeth y Cyngor Tref i fod yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y dyfodol.

10.5 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) CSC: gwybodaeth a dderbyniwyd megis:

10.5.1 Newid y Cytundeb Cyflenwi: Yn ddiweddar daeth CSC i gytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ynghylch newidiadaiu i amserlen gyflenwi'r CDLl. Mae'r cytundeb newydd yn gosod targed ymgynghori newydd ar gyfer Fersiwn Adneuo sef mis Tachwedd 2010.

10.5.2 Papur ynghylch Dosbarthiadau Tai – Drafft Gweithredol. (Y Sir i gyd)

10.5.3 Prosoes Asesu'r Safleoedd Posibl – drafft gweithredol (Y Sir i gyd)

10.5.4 Map o'r holl Safleodd Posibl a gyflwynwyd – Drafft Gweithredol Canolfan Gwasnaaethau Trefol ar gyfer Llambed.

10.5.5 Crynodeb Gweithredol o'r asesiad o'r safleoedd posibl – Drafft Gweithredol Canolfan Gwasanaethau Trefol – Llambed

10.5.6 Map o ddyraniadau tir amodol y Ganolfan Gwasanaethau Trefol- Drafft Gweithredol ar gyfer Llambed. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys dyraniadau tai, yn bennaf.

Wedi eu cynnwys hefyd roedd cwestiynau i'w hystyried.

Gall y CT gyflwyno ymateb i'r CSC.

11. CYLLID

11.1 GWARIANT

EITEM	TÂL
Canolfan Deuluol Llambed	£1,000.00
Y Samariaid – Ceredigion	£ 25.00
Cyfieithu Seremoni Urddo'r Maer 7.05.2010 £80 TAW £14	£ 94.00
Hirio Neuadd San Pedr x 3 – 27.05.2010 (x 3 awr)	£ 22.50
Lwfans y Maer 2010-11	£ 2,705.50
Cynhadledd Un Llais Cymru 2010 £65x2	£ 130.00
Cyflog y Clerc – Mai - Gros	£ 628.16
Golau/Gwres/Storio	£ 20.00

11.2 INCWM

EITEM	TÂL
Praesept 2010-11	£43,200.00
Cyfraniad gan aelod o'r cyhoedd o Lambed a hoffai gadw ei enw'n anhysbys ar gyfer dathliadau'n ymwneud â sefydlu'r Maer	£ 100.00

11.3 Adroddodd y Cyng. Walters bod yn ychwaneg i'r £15,000 cymhorthdal a dderbyniwyd dan law Cynllun yr Heddlu *Rhoi'n ôl i'r Gymuned,* wedi ei glustnodi'n barod ar gyfer gwelliannau ar gyfer Cae Maesyderi.

12. IS-BWYLLGORAU

12.1 Goleuadau Stryd

(Cyng J.Davies; D.Williams; M Davies-Evans; G. Evans)

12.1.1 Trwsio golau'r Senotaff (Mr Dudley): ni sefydlwyd petai unrhyw gamau wedi eu cymryd parthed y mater.

12.1.2 Adroddodd y Cyng Greg Evans at sylw'r Clerc ar y 10.05.2010 fod problemau'n bodoli ar y golau stryd sy'n hymestyn o'r Garej Troedrhiw i Ystad Brynsteffan ar yr Heol y Gogledd. Nam cebl yw gwraidd y broblem. Cyfeiriwyd y mater at sylw'r Cyngor Sir sydd wedi hysbysu'r cwmni *Derwen Lighting*. Dylid atgyweirio'r broblem cyn bo hir (adroddwyd yr wybodaeth gan GSC ar y 10.05.2010)

12.1.3 Mae'r cais i drwsio'r golau stryd diffygiol ar Deras Fictoria wedi ei adrodd at sylw'r CSC.

12.1.4 Atgofiwyd aelodau ei bod yn bosibl iddynt hwy ac aelodau'r cyhoedd i adrodd namau yn ymwneud â goleuadau stryd yn syth ar y Cyngor Sir drwy gysylltu â'r Ganolfan-Alw 01545 572572 gan ddyfynnu rhif-cyfres y golau a/neu lleoliad.

12.1.5 Yn disgwyl clywed oddi wrth y CSC parthed y dyddiad cyflwyniad diffodd goleuadau stryd penodedig o 12 Canol Nos tan 5am. Cytunwyd yn ystod cyfarfod Ionawr 2009 y CT i adolygu'r sefyllfa ar ôl cyfnod blwyddyn, mewn cydweithrediad â'r Heddlu, mewn cais i ddarganfod problemau.

12.2 Palmantau

(Cyng C.Thomas; L.Mason-George; E.Dafis; Y Maer R.Phillips)

12.2.1 Darn o dir sydd angen sylw gerbron Gwesty'r Llew Du, Llambed. Cysylltwyd â Rheolwr y Llew Du i geisio darganfod perchennog y darn o dir sydd angen ei gynnal a'i gadw gerbron y Llew Du. *Hefyd gwnaed cais am fin sbwriel.*

Awgrymwyd adroddiadau ar lafar gan gynghorwyr, mai nid cyfrifoldeb y Llew Du yw cynnal a chadw'r darn yma o dir. Dywedwyd bod Mr Gareth Jones, perchennog y Garej Mountwalk, wedi cynnal y clwt o dir pan oedd ei arej yn gweithredu o'r fan yma. Cytunwyd i ofyn i Mr Jones os mai ef yw perchennog y tir dan sylw, ac os derbynnir ateb yn mynegi mai ei eiddo ef ydyw, penderfynwyd i ofyn tybed a fyddai'n bosib iddo gynnal a chadw'r darn, unwaith yn rhagor.

12.2.2 Holodd y Cyng. Walters a oedd cynnydd wedi ei wneud ynglŷn â llunio rhestr i gynnwys yr holl broblemau'n ymwneud â phalmantau'r dref. Adroddodd y Maer nad oedd unrhyw ddatblygiadau'n hysbys iddo.

12.3 Llwybrau Cerdded + Parc-yr-Orsedd

(Cyng A. Carter, H.Harris, S.Walters, C.Barton)

12.3.1 Mynegodd y Gyng. Barton ei hawydd i ymddiswyddo fel aelod o'r Pwyllgor Llwybrau Cerdded.

12.3.2 Y Llwybr Cerdded sy'n rhedeg trwy fynwent Eglwys San Pedr, cais Mrs D.Lloyd Llywydd SYM Llambed: bu i Mrs Lloyd gyfeirio cc o'r llythyr at sylw'r CSC, i gyfarfod mis Mawrth 2010 y Cyngor Tref. Derbyniwyd mewn gwirionedd 2 gopi-carbon gan y Cyngor Tref (cc). Anfonwyd un o'r copiau at sylw'r Cyngor Sir. Yn yr ymateb, cyfleuwyd y byddai'r Cyngor Sir yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r gwelyau blodau'r Rookery.

Ynglŷn â chynnal a chadw'r holl lwybrau cerdded ar dir Eglwys San Pedr, yr Eglwys fel Awdurdod sy'n gyfrifol am eu cynnal yn ogystal â'r fynwent, yn gyfangwbl gan gynnwys gwaredu â sbwriel. Cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw gawardu â'r sbwriel a chynnal arwynebol, yn unig, 2 lwybr cyhoeddus rhifau 62/14 a 62/15. Y mae'r glanhawr stryd ar gyfer Llambed yn codi'r sbwriel oddi ar y llwybrau yma'n ôl yr angen. Gofynnwyd yn llythyr Mrs Lloyd, petai cyfrifoldeb am fainc sydd angen ei thrwsio, sydd wedi ei lleoli gyferbyn â'r Orsaf Heddlu, yn medru cael ei drosglwyddo i'r CSC. Ni gyfeiriwyd at y sedd yn yr ymateb a dderbyniwyd gan GSC. Y mae'r CSC wedi ymateb yn syth i lythyr Mrs Lloyd.

12.3.2 Parc-yr-Orsedd: Adroddwyd bod ymholiadau'n mynd yn eu blaen parthed trwsio'r offer cadw'n heini, masg ar gyfer y gât – Heol y Gogledd, atgyweirio'r gât ar fynedfa Bryn-yr-Eglwys a dod o hyd i amnewidiad i'r asyn pren.

12.4 <u>Camerau TCC</u>

(Cyng H.Harris, Maer R.Phillips, K.Ramaya)

12.4.1 Bu i'r Maer a'r Dirprwy-Faer fynychu'r cyfarfod Fforwm Teledu Cylch Cyfyng Ceredigion ar Ddydd Llun 24 Mai yn Swyddfeydd y CSC , Aberaeron. Trafodwyd yr Adroddiad ynghylch perfformiad Teledu Cylch Cyfyng ble soniwyd am effaith positif camerau TCC yn yr ymgais i leihau y nifer o droseddau ac i ymwared ag ofnau'n ymwneud â throseddau.

12.4.2 Adroddiad Misol Ebrill 2010: Bu yna 2 gais gan yr Heddlu am Ddisgiau Copi.

12.5 <u>Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi</u>

(Y Maer Cyng R.Phillips, C.Thomas; D.Wilson; C.Barton; G.Evans; S. Walters; Cyng. Sirol H.Harris; I.Williams; Lizzie James, Sue Davies; Maureen Williams; Eleri Thomas (Clerc).

Cynhelir cyfarfod yn fuan. Adroddwyd bod Mr Mike Brown wedi cwblhau y toriad olaf o 6 toriad ar y 26.05.2010.

12.6 <u>Yr Iaith Gymraeg</u>

(Y Maer Rob Phillips; Cyng. Selwyn Walters, D.Williams, C.Thomas; E.Thomas (Clerc)

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol at sylw Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ystyriaeth. Sylwyd mai dim ond cyfeiriad Saesneg sydd i'r wefan, sef www.lampeter-tc.gov.uk. Credir y dylai'r Cyngor fabwysiadu cyfeiriad Cymraeg yn ogystal â chyfeiriad Saesneg. *Penderfynwyd i ddilyn y cyngor hwn*. Gofynnwyd hefyd i sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ar gael ar y wefan yn Gymraeg. Datganwyd llongyfarchion gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar greu gwefan sy'n gwbl ddwyieithog ac sy'n gwneud defnydd o Gymraeg graenus a chlir.

13. U.F.A.

13.1 I longyfarch y Prifathro Ysgol Gynradd Llambed ar greu arddangosfa dechnoleg o'r radd flaenaf, ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron 2010. *(Y Maer)*

13.2 Adroddodd y Cyng. Ramaya bod modurwyr yn parcio eu ceir ar balmantau Stryd y Bont. *I adrodd at sylw'r Heddlu (Y Maer)*

13.3 Cynhelir Ffair Fwyd Llambed ar Ddydd Sadwrn 24ain o Orffennaf 2010.

13.4 Y mae angen glanhau'r 3 lloches bws y dref – i geisio gwasanaeth Mr Mark Jenkins.

13.5 **Mynegodd y Gyng. Davies –Evans** bryder parthed y diffyg chwynnu o fewn ardaloedd y Cwmin a Stryd San Thomas. Dywedodd y Cyng. Harris bod camau mewn lle gan GSC i ymdrin â thyfiant ddwy-waith y flwyddyn.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos lau 24ain o Fehefin 2010 am 7.30pm, Neuadd Eglwys San Pedr.

Atgofiwyd aelodau o'r Gwasanaeth Sifig y Maer, a gynhelir ar Ddydd Sul, 6ed o Fehefin am 11.00am, Eglwys San Pedr Llanbedr PS.

----------(Arwyddwyd/Dyddiad)